

Taflen Ffeithiau Rhwydwaith Ffrwythau Meddal Tyfu Cymru

Rheoli Clefydau a Chwyn - Ffrwythau Perthi



Gall cyrens, eirin Mair a llus fod yn ychwanegiadau pwysig at unrhyw fusnes ffrwythau meddal, ond mae angen rheoli plâu a chlefydau'n effeithlon er mwyn cael y gorau o'ch planhigion. Mae natur goeddaidd barhaol y cnydau hyn yn golygu y gall plâu sydd wedi goroesi dros y gaeaf drosglwyddo problemau o un flwyddyn i'r llall, felly rhaid i chi fod yn wiliadwrus iawn wrth fonitro a rheoli cyn i'r materion hyn waethygu. Mae'r canllaw hwn yn crynhoi'r prif feysydd problemus ar gyfer cnydau perthi, ond i gael unrhyw gyngor ar reoli plâu/clefydau, dylech anelu at ymgynghori ag ymgynghorydd sydd â chymhwyster BASIS - gellir trefnu ymweliadau un-i-un ar gyfer busnesau cymwys drwy raglen Tyfu Cymru i ddarparu cyngor wedi'i dargedu i chi ar dyfu ffrwythau meddal. Yn ddiweddar, mae AHDB wedi rhyddhau dogfen o'r enw Bush Fruit Crop Walker's Guide a all fod yn ddefnyddiol o ran adnabod ystod eang o blâu a chlefydau mewn ffrwythau perthi ac mae'n cynnwys ystod eang o ffotograffau. Gellir cael gafael arno ar-lein yma: <https://ahdb.org.uk/knowledge-library/bush-fruit-crop-walkers-guide>

Clefydau Cyffredin

Clwyf Smotiau – Gall amodau tamp, gwlyb arwain at smotiau bychain brown tywyll afreolaidd ar ddail hŷn o fis Mai ymlaen, a all achosi i'r dail gwympe'n gynnar; gan effeithio ar y cnwd a datblygiad blagur i'r dyfodol. Gall hyn fod yn bryder penodol ar ôl cynaeafu gan fod dail sydd wedi'u niweidio'n agored i gael heintiau. Mae Dodine e.e. Syllit 400SC wedi'i awdurdodi i'w ddefnyddio ar gyrens duon yn unig, a gellir defnyddio boscalid/pyraclostrobin (e.e. Signum) ar lus (EAMU 2111/10) a bydd yn darparu rhywfaint o reolaeth ar glwyf smotiau, ac felly hefyd y bydd myclobutanil (Systhane 20EW) ar gyrens ac eirin Mair. Dylid nodi fod rhai cyltifarau cyrens coch hefyd yn dueddol o gael clwyf smotiau.



Botrytis – Haint malltod llwyd ar flodau sy'n achosi i ffrwythau bydru wrth aeddfedu, a gall blodau, dail ifanc a blaen brigau gael eu lladd yn gyfan gwbl. Gall difrifoldeb gynyddu lle ceir lefel uchel o leithder a thymheredd cynnes (yn enwedig lle y mae cylchrediad aer gwael), blodau wedi'u difrodi gan rew neu lle y mae gormod o ddefnydd o nitrogen wedi achosi tyfiant meddal. Mewn eirin Mair, gallai canghennau gael eu heintio drwy glwyfau, a all arwain at wywo. Dylech anelu at gael rhaglen chwistrellu yn ei lle o'r cyfnod blodeuo drwedd hyd at gynaeafu. Yn ystod ffrwytho, mae gan Signum gymeradwyaeth ar gyfer yr holl gyrens (cyrens coch a chyrens gwyn - EAMU 2114/10) a llus (EAMU 2111/10), a chymeradwywyd Teldor ar gyfer pob ffrwythau perthi ac eithrio cyrens gwyn (EAMU 2926/08) - gwiriwch yr hyn a gymeradwywyd ar gyfer cyfnodau cynaeafu).



Llwydni Eirin Mair Americanaidd – Yn heintio blagur a ffrwythau eirin Mair a chyrens. Bydd darnau gwyn yn datblygu ar ddail newydd i ddechrau, ac ar flagur (llun) a'r ffrwythau; bydd y darnau ffwngaid yn troi'n frown yn ddiweddarach yn y tymor. Fel arfer bydd yr haint yn digwydd yn ystod cyfnodau o leithder uchel a thymheredd cynnes. Mae'r niwed i'r blagur yn llesteirio twf a fydd yn effeithio ar y cnwd ffrwythau mewn cnydau dilynol. Bydd ffwngladdwyr ataliol o gymorth i reoli'r clefyd, bydd llawer o'r rhai a ddefnyddir ar gyfer clwyf smotiau neu botrytis yn cael rhywfaint o effaith. Mae gwahanol rywogaethau o eirin Mair a chyrens duon yn amrywio o ran pa mor dueddol ydynt o gael haint. Mae cyrens coch a chyrens gwyn yn llai tebygol o gael eu heintio. Gyda chyltifarau sy'n debygol o gael eu heintio, fel arfer mae angen defnyddio ffwngladdwr/ ffwngladdwyr amddiffynnol. Mae nifer ar gael i'w defnyddio ar gyrens ac eirin Mair gan gynnwys myclobutanil, bupirimate (e.e. Nimrod) a kresoxim-methyl (Stroby WG). Yn ogystal gellir defnyddio potasiwm bicarbonad i leihau lefelau haint llwydni ond yn



ymarferol nid yw mor effeithiol yn erbyn Llwydni Eirin Mair Americanaidd ag y mae yn erbyn llwydni blodiog ar fefus.

Anthracos Llus – Mae'r clefyd hwn yn effeithio ar flagur a ffrwythau llwyni llus ac mae'n broblem benodol yn ystod amodau cynnes a llaith adeg blodeuo. Bydd ffrwythau'n suddo ym mhen y blodau wrth iddyn nhw aeddfedu (llun). Wrth iddo ddatblygu gallai cyrff ffrwytho oren bychan fod yn weladwy. Unwaith eto, bydd chwistrellu ffwngladdwr ataliol yn ystod y cyfnod blodeuo yn cynorthwyo i'w reoli.



Haint Gwywo - Enw arall arno yw marwolaeth sydyn llwyni ac mae'n effeithio ar gyrens ac eirin Mair. Bydd y canghennau'n gwywo ond gadewir y dail ar y gangen yn ystod y gaeaf nac ni fyddant yn cwmpo. Ni fydd canghennau a effeithir yn blaguro'r tymor canlynol. Os caiff y canghennau eu torri a'u hagor bydd y meinweoedd yn y canol yn edrych yn frown ac yn afiach (gweler y llun pellaf ar y dde i weld cymhariaeth rhwng meinwe afiach a meinwe iach).



Mae'r haint yn manteisio ar llwyni gwan a than bwysau a gall gael mynediad drwy fannau clwyfedig megis canghennau sydd wedi cracio, neu glwyfau a achoswyd gan docio. Ychydig o opsiynau sydd ar gyfer ei reoli, ond dylid osgoi gadael i llwyni fynd dan straen a dioddef difrod yn ystod y cyfnod chwistrellu/cyngaeafu a thorri allan hen bren sydd wedi'i heintio.

Rheoli Chwyn - Gall chwyn dyfu'n gyflym i effeithio ar llwyni (yn enwedig wrth iddyn nhw ymsefydlu), gan achosi twf gwael a gall wneud cyngaeafu'n anodd. Gall toriadau cyrens duon gael eu plannu drwy dyllau mewn Mypex neu blastig i gynorthwyo rheoli chwyn ar y dechrau. Dylech anelu at reoli chwyn parhaol ac unflwydd o fewn a rhwng perthi, a dylid rhoi ffocws penodol i hyd ar ôl i'r cyngaeafu orffen. Dylai chwyn gael ei reoli hefyd yn y rhesi rhwng llwyni er mwyn gwella mynediad atynt, yn enwedig mewn planhigfeydd PYO. Mae sawl chwynladdwr gweddilliol cyn/ar ôl datblygu ar gael i'w defnyddio ar ffrwythau perthi. Gellir defnyddio propyzamide e.e. Kerb Flo yn ystod yr hydref/gaeaf ac mae'n ddefnyddiol i reoli chwyn sy'n egino dros y gaeaf cyn/ar ôl iddo ddatblygu, er enghraifft gwlydd a gweunwellt unflwydd, ochr yn ochr â rhywogaethau eraill o wellt gan gynnwys cynffonwellt du. Gellir defnyddio pendimethalin (e.e. Stomp 400SC) yn ddiweddarach yn y tymor cwsg (hyd at adeg blaguro) ym mhob cnwd o ffrwythau perthi ac fe'i defnyddir fel arfer gyda chwynladdwr arall fel isoxaben (e.e. Flexidor) i gynyddu sbectrwm y chwyn a reolir. Dylai chwynladdwyr cyffwrdd gael eu defnyddio un ai fel sbot-driniaeth drwy ddefnydd gofalus o chwistrell â chwfl, er mwyn osgoi cyffwrdd y llwyni. Gall chwyn gwair ymsefydlu'n gyflym mewn planhigfeydd ifanc neu wan, gan lesteirio twf yn ddifrifol iawn. Gellir rheoli'r rhain drwy chwistrellu gyda fluazifop-P-butyl (e.e. Fusilade Max; mae rhai rhifau MAPP angen EAMU) iâr yr holl ffrwythau perthi. Dewis arall ar gyfer cyrens duon, cyrens coch, llus ac eirin Mair yw clethodim (Centurion Max; EAMU 3640/19). Gellir rheoli chwyn llydanddail mewn cyrens ac eirin Mair gan ddefnyddio glyffosad wedi'i gyfeirio'n ofalus (ac yn ddelfrydol dan orchudd), dylid ymgynghori ag EAMU o ran defnydd gan nad oes cymeradwyaeth i ddefnyddio pob cynnyrch sy'n cynnwys glyffosad i'r diben hwn. Wrth ddefnyddio glyffosad ar ôl cyngaeafu, gall tocio canghennau isel helpu i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â llwyni; gan y gellir gweld difrod sylweddol yn y gwanwyn ar ôl iddo gael ei ddefnyddio yn yr hydref neu ddechrau'r gaeaf. Gellir defnyddio carfentrazone-ethyl (Shark; EAMU 0627/19) rhwng llwyni ac o gwmpas gwaelodion cnydau ffrwythau perthi i gael gwared â chwyn presennol, fodd bynnag gall achosi llosg os daw i gysylltiad â dail gwyrdd. Mae cyfyngiadau ar ei ddefnydd o ran amser, felly sicrhewch eich bod yn edrych ar yr EAMU. Gellir sbot-chwynnu ysgall ifanc gan ddefnyddio clopyralid (Dow Shield 400; EAMU 1629/16) gyda bwlch cyngaeafu o 42 diwrnod rhwng 1^{af} Mawrth a 31^{ain} Awst, gan osgoi'r cyfnod blodeuo.

Ymwadiad

Gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb yr wybodaeth a'r argymhellion a roddir yn y nodiadau hyn. Dylai'r holl gemegolion amddiffyn cnydau gael eu defnyddio'n unol â'r argymhellion ar y label, a dylid ymgynghori â'r argymhellion hynny cyn chwistrellu. Efallai na fydd rhai o'r plaladdwyr a grybwyllir yn y nodiadau hyn yn cael eu cefnogi gan argymhellion ar labeli ar gyfer eu defnyddio ar gnydau

ffrwythau perthi ond eu bod yn cael eu caniatáu drwy'r Estyniad o Ganiatâd ar gyfer Mân Ddefnydd (EAMU) yn y DU dan y Trefniadau Hirdymor Diwygiedig ar gyfer Ymestyn Defnydd (2002). Yn yr achosion hyn, defnyddir y plaladdwr ar risg y defnyddiwr ei hun ac nid yw Tyfu Cymru'n derbyn atebolrwydd am unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan ddefnydd o'r fath. Dylai tyfwyr fod wedi darllen yr EAMU cysylltiedig â phlaladdwr cyn ei ddefnyddio a rhaid cadw copi electronig neu gopi caled o'r EAMU ar gofnod. Mae'r cyfeiriadau at gymeradwyaeth ar labeli ac EAMU ar gyfer defnyddio plaladdwyr ar ffrwythau perthi yn gywir adeg ysgrifennu. Gall y rhain gael eu newid a gallai cymeradwyaeth gael ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Cyfrifoldeb y tyfwr yw gwirio cymeradwyaeth cyn defnyddio plaladdwyr. Os bydd unrhyw amheuaeth, dylai tyfwr geisio cyngor gan gynghorydd sy'n gymwys dan BASIS - mae hyn ar gael yn rhad ac am ddim ar gyfer tyfwyr cymwys drwy raglen Tyfu Cymru, cysylltwch â ni i drefnu ymweliad â'ch safle.